Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN**
**16 Chwefror 2022**

**COFNODION**

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Delyth Jewell AS
Alun Davies AS
Rhianon Passmore AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Enfys Roberts, Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Dim

**2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** – Papur CPA 6S 01-21

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

**3.** Roedd nifer o faterion yn codi o'r cofnodion. The following
Nodwyd y camau gweithredu a ganlyn, ac roedd pob un ohonynt wedi'u cwblhau.

- ***Dewis Cynrychiolwyr Pwyllgor Llywio Cangen Seneddwragedd y Gymanwlad.***

Yn dilyn sawl cyfarfod, cytunwyd ar gylchdro arfaethedig, a fyddai'n golygu bod y tair aelod benywaidd o Bwyllgor Gweithredol ein cangen yn eistedd ar Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad yn ystod Chweched Tymor y Senedd.

Nododd y Cadeirydd, ers i'r trefniant hwn gael ei gytuno, fod Natasha Asghar AS a Rhianon Passmore AS wedi cynnig eu hunain ar gyfer Cadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR. Pe bai'r naill neu'r llall yn llwyddiannus yna byddai angen edrych ar y cylchdro unwaith eto gan y byddai angen lle parhaol ar Gadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad ar y Pwyllgor Llywio am ei thymor llawn.

Holwyd pam yr oedd yn ymddangos mai ein cangen ni oedd yr unig un gyda mwy nag un cynrychiolydd ar y Pwyllgor Llywio a bod canghennau eraill yn cael eu cynrychioli gan un Aelod yn unig.

**Camau i'w cymryd:** Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth BIMR i geisio eglurder ar hyn.

- ***Dewis Hyrwyddwr Cangen Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau.***

Mark Isherwood AS oedd yr unig ymgeisydd ar gyfer y rôl hon ac roedd Aelodau'r Gangen yn falch o dderbyn ei enwebiadau.

- ***Llythyr o ddiolch i Ann Jones.***

Cafodd y llythyr hwn o ddiolch ei anfon at Ann Jones a chafodd yr Aelodau weld copi o'r llythyr.

- ***Dewis Cynrychiolydd Cangen ar gyfer gweithgor "Argyfwng Hinsawdd" BIMR.***

Roedd Llyr Gruffydd AS yn falch o dderbyn cynnig y Gangen i gynrychioli'r Senedd ar y Gweithgor BIMR newydd hwn.

## 4. ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR

**<u>Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol</u>**

- *Gweminar Hinsawdd CPA y DU a Chyfres Bord Gron*
  *15/28 Hydref*

  Gwaetha'r modd, nid oedd yr aelodau wedi gallu cymryd rhan yn y Ford Gron hon.

- *Gweithgor BIMR ar "Argyfwng Hinsawdd" Dyddiadau Rhithwir*
  ym mis Tachwedd 21 – mis Chwefror 22

  Roedd Llyr Gruffydd yn bresennol yn y cyfarfod hwn, sef sesiwn ffurfiol gyntaf y Gweithgor, a gynhaliwyd gan Julie Elliott AS (y DU) ar y testun "*Stori Equinor a Norwy*".

  **<u>Camau i'w cymryd:</u>** Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon y nodyn, a ddrafftiwyd gan Jon Davies, ymlaen ar y sesiwn hon.

- *Cyfarfodydd Pwyllgor Llywio CWP BIMR*
  *Rhithwir*
  *18 Tachwedd 2021 a 3 Chwefror 2022*

  Cafwyd adborth gan Natasha Asghar AS a Rhianon Passmore AS ar y cyfarfodydd hyn a oedd wedi canolbwyntio ar Seneddau Sensitif o ran Rhywedd ac Archwiliadau ynghylch Rhywedd.
  Ers hynny roedd y Senedd wedi darparu dogfen yn amlinellu ei safbwynt.

- *Sioeau Teithiol Seneddwragedd y Gymanwlad yn y DU:*
  *22 Tachwedd*

  Roedd Natasha Asghar AS yn bresennol yn y Sioe Deithiol hon ac yn ei hôl hi, roedd y sesiwn yn un gadarnhaol, yn canolbwyntio ar y mater pwysig o hyfforddiant i fynd i'r afael ag Aflonyddu ar Seneddwyr Benywaidd drwy Gyfryngau Cymdeithasol.

**Nodyn:**Ers hynny mae CPA y DU wedi rhyddhau recordiad o'r sesiwn hon, sydd ar gael **yma**

- *Cyfarfod rhanbarthol Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau Rhithwir*
  17 Ionawr

  Roedd Mark Isherwood AS yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir hwn lle'r oedd y Gangen wedi darparu hunanasesiad o'r Senedd fel senedd gynhwysol o ran anabledd. Wrth symud ymlaen, ceisiodd y grŵp greu grid o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu drwy nodi meysydd allweddol i'w gwella o bob deddfwrfa.

- *Ymweliad Uchel Gomisiynydd Awstralia â'r DU*
  *y Senedd*
  *15 Chwefror.*

  Roedd y Llywydd wedi bod yn falch o'r cyfle i gwrdd â'r Uchel Gomisiynydd lle cawsant gyfle i drafod ystod o faterion o ddiddordeb i'r Uchel Gomisiynydd, gan gynnwys cysylltiadau rhwng Cymru ac Awstralia, y Gymraeg a materion cyfansoddiadol.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *Materion ynghylch Masnachu Pobl trwy Chwaraeon*
  *Gweithdy Rhithwir*
  *22-24 Chwefror*

  Atgoffwyd yr aelodau o'r cyfle i gymryd rhan yn y sesiwn hon, er y nodwyd y byddai hyn yn digwydd yn ystod toriad yr wythnos ganlynol.

- *Seminar San Steffan (seminar 70)*
  *Hybrid*
  *14 – 18 Mawrth*

  Dywedodd y Cadeirydd fod y Gangen yn falch bod Sam Rowlands AS a Natasha Asghar AS wedi gallu bod yn bresennol yn y Seminar hon a anelwyd at seneddwyr  oedd newydd eu hethol. At hynny, bu trefnwyr y CPA yn awyddus i gydbwyso ein cynrychiolaeth â chynnig am leoedd i Aelod o'r Blaid Weithredol ond nid oedd yr un o'r tri Aelod Llafur newydd yn gallu bod yn bresennol y tro hwn.

Nid oedd unrhyw ddefnydd o'r lleoedd rhithwir a gynigiwyd i Grwpiau'r Senedd.

- *Cynhadledd Flynyddol BIMR (cynhadledd 51) (gan gynnwys ethol Cadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad)*
  *Ynys Manaw*
  *23–26 Mawrth*

Trafododd y Gangen y Gynhadledd BIMR sydd i ddod a'r angen i ddewis ein dirprwyaeth.
Gwnaeth Is-lywydd y Gangen yr achos y dylai Rhianon Passmore AS a Natasha Asghar AS gael y cyfle i fynd i'r gynhadledd hon, o ystyried y byddai'r broses o ethol Cadeirydd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR – yr oedd y ddau wedi cynnig eu hunain ar ei gyfer – yn cael ei gynnal yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gynhadledd.

Codwyd manylion y cap a oedd yn berthnasol i gyfranogiad Aelodau Gweithredol Cangen yng Nghynadleddau BIMR.

**Cam i'w gymryd:** Ysgrifenyddiaeth y Gangen i ddosbarthu Rheolau'r Gangen sy'n egluro'r mater hwn.

Nodyn: Roedd dirprwyaeth derfynol Cangen y Senedd a ddewiswyd fel a ganlyn:

Rhun ap Iorwerth AS (Cadeirydd)
David Rees AS (Is-lywydd)
Rhianon Passmore AS
Natasha Asghar AS

gydag Alun Davies AS, Delyth Jewell AS, a Sam Rowlands AS hefyd wedi cael cynnig y cyfle i fod yn bresennol.

- *Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Canol Blwyddyn y CPA*
  *(er gwybodaeth yn unig)*
  *Assam, India*
  *9 Ebrill*

Nododd y Cadeirydd y cyfarfod llywodraethu sydd i ddod ac y byddai'r Ysgrifennydd Rhanbarthol Jon Davies a'n Cynrychiolwyr BIMR yn adrodd yn ei gylch maes o law.

- *Fforwm Merched y Gymanwlad (fel rhan o CHOGM 2022)*
  *Kigali, Rwanda*
  *wythnos yn dechrau 20 Mehefin*

  Nododd y Cadeirydd y cyfarfod CHOGM sydd i ddod – sef cyfarfod y byddai'r Gangen yn ei fonitro – rhag ofn y gallai Aelodau gymryd rhan yn y Fforwm Merched, fforwm yr oedd y Gangen wedi anfon cynrychiolwyr iddo yn flaenorol.

- *Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (cynhadledd 65)*
  *Halifax, Nova Scotia, (Cynhelir gan Senedd Ffederal Canada)*
  20 – 26 Awst

  Roedd dyddiadau'r CPC bellach wedi'u cadarnhau a byddai'r Gangen yn disgwyl gwahoddiad ffurfiol cyn ein Cyfarfod Cangen nesaf.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

\- *Prosiect ymchwil – Arferion Seneddol sy'n Sensitif o ran Rhywedd yn BIMR*

Deallwyd fod amryw aelodau o'n Cangen, bellach mewn cysylltiad â Dr Jessica Smith o Brifysgol Southampton ynghylch ymchwil yr oedd yn ei chynnal ar Seneddau sy'n Sensitif o ran Rhywedd

\- *Cafwyd trafodaeth fer ar flaenoriaethau'r Gangen.*

***Camau i'w cymryd:*** *Ysgrifenyddiaeth y Gangen i dynnu sylw at y rhain, fel y nodir yn Rheolau'r Gangen.*

\- *Hyfforddiant Cenhadaeth Sylwedydd Etholiad*

Gofynnodd y Dirprwy Lywydd a oedd unrhyw ddiweddariad ynghylch pryd y byddai'r hyfforddiant nesaf ar Genhadaeth Sylwedydd Etholiad yn cael ei gynnal.

**Camau i'w cymryd:** Ysgrifenyddiaeth y Gangen gynnal gwaith dilynol ar hyn gydag Ysgrifenyddiaeth BIMR.

Nodyn: Cadarnhawyd wedyn y byddai'r hyfforddiant Cenhadaeth

Sylwedydd Etholiad BIMR nesaf yn cael ei gynnal ar 14–15 Gorffennaf 2022.

7. **DYDDIAD CYFARFOD YN Y DYFODOL:**

Mis Mai / mis Mehefin 2022 (i'w gadarnhau)

DIWEDD.